**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**(FFYRDD AMRYWIOL, PONT-Y-CLUN)**

**GORCHYMYN (CYFYNGIADAU AROS) 2026**

**DATGANIAD O RESYMAU**

Mae'r Cyngor wedi datblygu'r cynnig yma ar ôl cael gwybod am gerbydau'n parcio ac yn rhwystro'r lonydd beicio cyfredol sydd wedi'u lleoli yn Ynysddu. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor wedi cael gwybod am gerbydau yn parcio ger cyffordd Rhifau 152 - 182, sydd wedi bod yn achosi problemau o ran gwelededd. Rydyn ni hefyd wedi cael gwybod am gerbydau'n parcio ger fynedfa Pant-y-Dderwen, gan achosi problemau o ran gwelededd a symudedd. Mae'r cynnig yn cynnwys cyflwyno cyfyngiadau dim aros ar unrhyw adeg (llinellau melyn dwbl) yn Ynysddu a'r ffyrdd cyfagos a hefyd ar gyffordd Pant-y-Dderwen. Mae'r cynnig hefyd yn cynnwys cyflwyno cyfyngiadau aros rhwng 8am a 6pm ar Ffordd Llantrisant.

Byddai'r cynnig yn helpu i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau ar y lonydd beicio yn Ynysddu, gan sicrhau bod modd i feicwyr fynd heibio, gan gynnal lled y ffordd ar y bont er mwyn sicrhau llif y traffig a gwelededd gwell wrth fynd tua chyfeiriad y lonydd beicio. Bydd y cynnig hefyd yn sicrhau llif y traffig a gwelededd gwell ar gyfer defnyddwyr y ffordd yn ardal Pant-y-Dderwen a Ffordd Llantrisant.

Byddai'r cynnig hefyd yn helpu i sicrhau nad oes unrhyw un yn parcio ar gyffyrdd a throadau cyfagos, gan gynyddu gwelededd i ddefnyddwyr y ffordd ar y cyffyrdd a throadau yma, gan ganiatáu rhagor o amser i ymateb i beryglon sy'n dod tuag atyn nhw megis cerbydau, beicwyr a phobl ifainc yn teithio i Ysgol y Pant gerllaw. Yn yr un modd, byddai'r gwelededd gwell yn helpu i osgoi'r perygl i bobl ac i draffig sy'n defnyddio'r rhannau o'r ffyrdd sydd wedi'u heffeithio trwy leihau'r perygl o wrthdrawiadau.

**RHONDDA CYNON TAFF COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**(VARIOUS ROADS, PONTYCLUN)**

**(WAITING RESTRICTIONS) ORDER 2026**

**STATEMENT OF REASONS**

The Council has developed a proposal following reports of vehicles parking and blocking the existing cycle lanes located on Ynysddu. In addition to this there has been reports of vehicle parking near the junction of Nos 152 – 182, which has been causing issues with visibility. Pant y Dderwen has also had reports of vehicle parking on the entrance causing visibility and manoeuvrability issues. The proposal includes no waiting at any time restrictions (double yellow lines) in Ynysddu and its adjoining roads and also on the junction of Pant y Dderwen. The proposal also includes waiting restrictions between the hours of 8AM and 6PM on Llantrisant Road.

The proposal would help to keep the cycle lanes in Ynysddu free of obstructions, facilitating passage for cyclists whilst also maintaining road width on the bridge to better accommodate traffic flow and visibility on the approach to the cycle lanes. The proposal will also better accommodate traffic flow and visibility for road users of Pant y Dderwen and Llantrisant Road.

The proposal would also assist in keeping nearby junctions and bends clear of parking, increasing visibility for drivers on said junctions and bends, allowing them more time to react to oncoming hazards such as vehicles, cyclists and young person's travelling to the nearby Y Pant School. Subsequently, the increased visibility would help to avoid danger to persons and traffic using the affected lengths of road by reducing risk of collision.